**Rhif: WG45485**

Welsh Government

# Ymgynghoriad - Crynodeb o'r Ymatebion

# Ardrethi Annomestig

Ymgynghoriad technegol ar Reoliadau drafft Ardrethu Annomestig (Personau y Mae'n Ofynnol Iddynt Ddarparu Gwybodaeth, a Chyflwyno Hysbysiadau) (Cymru) 2023 – Crynodeb o'r Ymatebion

15 Tachwedd 2022

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80535-030-9

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn darparu crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad technegol ar Reoliadau drafft Ardrethu Annomestig (Personau y Mae'n Ofynnol Iddynt Ddarparu Gwybodaeth, a Chyflwyno Hysbysiadau) (Cymru) 2023.

## Camau i'w cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir cael y ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille ac mewn ieithoedd eraill yn ôl y gofyn.

## Manylion Cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:
Is-adran Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: LGFR.Ymgyngoriadau@llyw.cymru

## Copïau Ychwanegol

Mae'r crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori yn cael eu cyhoeddi ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r ddogfen ymgynghori:

Rheoliadau ardrethu annomestig drafft i fynd i'r afael â thwyll ac osgoi talu trethi | LLYW.CYMRU

# Cynnwys

Ardrethi Annomestig ........ 1
Cynnwys ........ 3
Cyflwyniad ........ 4
Cynigion ........ 4
Ymgysylltu ........ 5
Trosolwg o'r ymatebion ........ 5
Crynodeb o’r Ymatebion ........ 5
Y camau nesaf ........ 7
Atodiad A: Rhestr o Ymatebwyr ........ 8

## Cyflwyniad

1. Codir ardrethi annomestig, a elwir weithiau'n ardrethi busnes, ar y rhan fwyaf o eiddo annomestig. Cyfrifir atebolrwydd drwy luosi'r gwerth ardrethol, a bennir yn annibynnol gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA), gan y lluosydd blynyddol a bennir yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru. Mae ardrethi annomestig yn codi dros £1.1 biliwn y flwyddyn yng Nghymru. Defnyddir yr holl gyllid hwn i helpu i ariannu gwasanaethau cyhoeddus lleol y mae pobl a chymunedau'n dibynnu arnynt.

2. Dylai ardrethi annomestig gael eu casglu mor effeithiol a theg â phosibl. Mae'r mwyafrif helaeth o dalwyr ardrethi'n talu'r hyn sy'n ddyledus yn llawn ac yn brydlon - lleiafrif bach yn unig sy'n osgoi talu eu cyfran deg. Mae osgoi talu ardrethi annomestig yn cael effaith andwyol ar wasanaethau lleol, y gymuned ehangach a thalwyr ardrethi eraill.

3. Ymgynghorwyd ar ystod o fesurau i fynd i'r afael â thwyll ac osgoi ardrethi annomestig yn ystod haf 2018, yn dilyn ymarfer casglu tystiolaeth a gynhaliwyd yn 2017. Yn dilyn yr ymgynghoriad, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ystod o fesurau ar 16 Hydref 2018.

4. Un o'r mesurau hyn oedd cyflwyno pŵer cyfreithiol newydd i awdurdodau lleol ofyn am wybodaeth gan dalwyr ardrethi a thrydydd partïon sy'n darparu gwasanaeth mewn perthynas ag eiddo, i gefnogi eu rôl yn y gwaith o filio a chasglu ardrethi annomestig.

5. Ceisiodd yr ymgynghoriad farn am Reoliadau drafft Ardrethu Annomestig (Personau y Mae'n Ofynnol Iddynt Ddarparu Gwybodaeth, a Chyflwyno Hysbysiadau) (Cymru) 2023, y cyfeirir atynt o hyn ymlaen yn y crynodeb hwn o'r ymatebion fel y 'Rheoliadau drafft'. Mae'r Rheoliadau drafft yn nodi mesurau sy'n anelu at helpu i fynd i'r afael â thwyll ac osgoi twyll o fewn y system ardrethi annomestig. Roedd yr ymgynghoriad yn dechnegol ei natur ac fe geisiodd safbwyntiau am agweddau ar eglurder a gweithrediad ymarferol y ddeddfwriaeth.

6. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn gymwys i Gymru'n unig.

## Cynigion

7. Gall gwybodaeth a fyddai'n helpu'r awdurdodau lleol i sicrhau bod eu manylion bilio'n gywir ar gyfer eiddo gael ei dal gan bartïon nad ydynt yn berchennog nac yn feddiannydd yr eiddo, er enghraifft busnes sy'n darparu gwasanaeth mewn perthynas â'r eiddo. Nod y Rheoliadau drafft yw galluogi awdurdodau lleol i ofyn am wybodaeth gan drydydd partïon rhagnodedig a nodi'r broses ar gyfer cyflwyno hysbysiadau yn hyn o beth. Bwriedir i hyn helpu'r awdurdodau lleol i nodi newidiadau penodol sy'n effeithio ar werth ardrethol hereditament neu gymhwysedd i gael rhyddhad ac esemptiadau, a'u helpu i sicrhau bod newidiadau o ran talwr ardrethi ac yn y defnydd o eiddo yn cael eu nodi'n fwy prydlon. Byddai hyn, yn ei dro, yn gwella cywirdeb biliau ardrethi annomestig, yn lleihau'r potensial i osgoi trethi ac yn arwain at newidiadau mwy amserol mewn atebolrwydd.

## Ymgysylltu

8. Gwahoddwyd safbwyntiau fel rhan o ymgynghoriad 12 wythnos a gynhaliwyd rhwng 24 Mehefin 2022 a 16 Medi 2022. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar dudalennau ymgynghori Llywodraeth Cymru. Roedd ymatebwyr yn gallu cyflwyno eu barn a'u sylwadau ar bapur, drwy e-bost neu ar-lein, ac yn Gymraeg neu yn Saesneg.

## Trosolwg o'r ymatebion

9. Cafwyd cyfanswm o wyth o ymatebion i'r ymgynghoriad. Daeth tri ymateb i law oddi wrth awdurdodau lleol, dau oddi wrth gyrff proffesiynol, dau oddi wrth unigolion, ac un oddi wrth asiant ardrethu.

10. Ceir rhestr lawn o'r ymatebwyr yn Atodiad A.

## Crynodeb o’r Ymatebion

11. Bwriedir i'r ddogfen hon fod yn grynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law. Nid yw'n ceisio nodi pob pwynt a godwyd gan ymatebwyr, ond yn hytrach, dynnu sylw at y themâu allweddol. Lle'r oedd ymatebion yn cytuno â'r cynigion, darperir safbwyntiau cyfyngedig.

**C1. A yw Rheoliad 3 o'r Rheoliadau drafft yn rhoi eglurder ynghylch pa drydydd partïon y mae'r rheoliadau'n gymwys iddynt? Os nad yw, sut y gellir ei wella?**

12. Dywedodd chwech o'r wyth ymateb, gan gynnwys pob ymateb gan yr awdurdodau lleol, fod eglurder angenrheidiol yn Rheoliad 3.

13. Awgrymodd un ymateb y gallai Rheoliad 3 ddiffinio asiant ardrethu yn fwy eglur, ond nododd y byddent yn dod o fewn y diffiniad ehangach presennol. Cododd un arall bryderon am sut y byddai trydydd parti yn cael ei nodi a gofynnodd pam na ellid gofyn am wybodaeth gan dalwr ardrethi yn unig.

**C2. A yw Rheoliad 4 o'r Rheoliadau drafft yn rhoi eglurder ynghylch y ffordd y gellir cyflwyno hysbysiadau i drydydd partïon? Os nad yw, sut y gellir ei wella?**

14. Dywedodd chwech o'r wyth ymateb, gan gynnwys pob ymateb gan yr awdurdodau lleol, fod eglurder angenrheidiol yn Rheoliad 4.

15. Galwodd un ymateb am fanylion ychwanegol ynghylch prawf o gyflwyno hysbysiadau. Nododd ymateb arall ddiffyg eglurder o ran a fyddai Rheoliad 4(4), sy'n ymwneud â chyflwyno hysbysiad i berchennog neu feddiannydd yr eiddo, yn gymwys i drydydd partïon.

**C3. A oes unrhyw faterion yn codi o ran gweinyddu a gorfodi'r Rheoliadau drafft?**

16. Tynnodd pedwar ymateb sylw at broblemau posibl gyda gweinyddu a gorfodi'r Rheoliadau drafft. Codwyd pryderon am gostau i'r trethdalwr, awdurdodau lleol yn defnyddio'r pwerau yn ormodol mewn ffordd heb ei thargedu, goblygiadau diogelu data, a sut y byddai trydydd parti yn cael ei nodi.

17. Roedd pob un o dri ymateb yr awdurdodau lleol o'r farn nad oedd unrhyw faterion gweinyddu a gorfodi yn cael eu cyflwyno gan y Rheoliadau drafft.

18. Ni roddodd un ymatebydd unrhyw farn mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

**C4. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill am y Rheoliadau drafft?**

19. Nid roes hanner yr ymatebion unrhyw sylwadau eraill am y Rheoliadau drafft.

20. Gwnaeth y rhai a roddodd sylwadau gynnwys pryderon am gostau i'r trethdalwr, goblygiadau diogelu data, y baich ar asiantau ardrethu, a bwriad ehangach y Rheoliadau.

**C5. Hoffai Llywodraeth Cymru wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynigion drafft yn eu cael ar y Gymraeg, ac ar y canlynol yn benodol:**
- **i. ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; ac**
- **ii. ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu’r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru’r effeithiau negyddol?**

21. Roedd pum ymateb naill ai'n darparu dim sylw, yn teimlo nad oeddent yn gallu rhoi barn ar y mater hwn, neu'n gweld y cwestiwn fel un nad oedd yn gymwys.

22. O blith y rhai a roddodd safbwyntiau, roedd barn gyson na fyddai'r Rheoliadau drafft yn cael effaith andwyol ar y Gymraeg. Tynnodd un ymateb sylw at ddyletswyddau dwyieithog presennol sy'n cael eu cynnal gan yr awdurdodau lleol.

**C6. Eglurwch hefyd sut y gellid llunio neu newid y Rheoliadau drafft er mwyn:**
- **i. cael effaith gadarnhaol neu gynyddu’r effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg; a**
- **ii. osgoi unrhyw effaith niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.**

23. Roedd chwe ymateb naill ai'n darparu dim sylw, yn teimlo nad oeddent yn gallu rhoi barn ar y mater hwn, neu'n gweld y cwestiwn fel nad un oedd yn gymwys.

24. Nododd un ymatebydd na fyddai'r Rheoliadau drafft yn cael effaith andwyol ar y Gymraeg.

25. Nododd un ymateb berthnasedd y ddeddfwriaeth bresennol sy'n nodi'r gofynion i'r awdurdodau lleol gynnal safonau'r Gymraeg.

**C7. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw bwyntiau cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â hwy yn benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w cofnodi.**

26. Ni chododd pump o'r wyth ymateb unrhyw bwyntiau pellach.

27. Dywedodd un ymateb y byddai'r Rheoliadau drafft yn amharu ar gyfreithiau preifatrwydd heb ymhelaethu. Cododd un arall bryder am effeithiau posibl unrhyw gosbau ar asiantau ardrethu. Roedd y farn arall yn ailadrodd ymatebion a roddwyd i gwestiynau blaenorol ynghylch i bwy y dylai'r Rheoliadau fod yn gymwys.

## Y camau nesaf

28. Mae Llywodraeth Cymru'n nodi'r sylwadau a godwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad. Bwriad y Rheoliadau drafft yw mynd i'r afael â'r lleiafrif o sefyllfaoedd lle nad yw gwybodaeth i alluogi'r awdurdodau lleol i gyflawni eu swyddogaethau bilio yn dod i law oddi wrth dalwyr ardrethi. Gall trydydd partïon fod mewn sefyllfa i ddarparu gwybodaeth berthnasol yn yr amgylchiadau hyn. Mae hyn yn rhan o becyn ehangach o fesurau i fynd i'r afael â thwyll ac osgoi talu o fewn y system ardrethi annomestig.

29. Byddai'r awdurdodau lleol yn defnyddio'r broses sy'n cael ei hwyluso gan y Rheoliadau drafft mewn modd cyfyngedig ac wedi'i dargedu. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn, felly, na fyddai'r Rheoliadau drafft yn rhoi fawr o faich ychwanegol ar drydydd partïon. Ni fyddai cosbau'n cael eu defnyddio ond mewn sefyllfaoedd lle nad yw trydydd parti'n cydweithredu â hysbysiad gwybodaeth. Ni fyddai disgwyl i drydydd partïon ddarparu gwybodaeth nad yw ganddynt.

30. O ran cydnawsedd â deddfwriaeth diogelu data, bwriedir i'r Rheoliadau drafft gefnogi trydydd partïon i ddarparu gwybodaeth trwy ddarparu sail ddeddfwriaethol ar gyfer gwneud hynny. Bydd y dyletswyddau a osodir ar yr awdurdodau lleol a thrydydd partïon gan ddeddfwriaeth diogelu data yn dal yn gymwys.

31. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y Rheoliadau, fel y'u drafftiwyd ac fel yr ymgynghorwyd arnynt, i ddod i rym ar 1 Ebrill 2023.

## Atodiad A: Rhestr o Ymatebwyr

Daeth ymatebion i law oddi wrth y canlynol:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cyngor Sir Ceredigion
Cyngor Sir Ddinbych
GL Hearn
Y Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw
Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig

Roedd dau ymatebydd yn dymuno aros yn ddienw.